

Creu Cymunedau Cyfoes: "Myfyrdodau ar daith i ddechreuadau newydd."

Pryd bynnag, ac os byth, y caf alwad gan Nathalie Camus, neu unrhyw un o'r unigolion ymroddedig a brwdfrydig o rwydwaith prosiectau 'Creu Cymunedau Cyfoes' yng Nghymru, yn awgrymu y dylwn neu y gallwn ymuno â gweithdy grŵp, rwy'n mynd ati'n reddfod i chwilio trwy fy nyddiadur a chlirio unrhyw rwystrau posibl a allai f'atal rhag cymryd rhan. O'r cyfarfod cyntaf un yr es iddo fwy na thair blynedd yn ôl yng Nghaerdydd, mae'r cynullïadau hyn wedi bod yn fwy o gyfle sy'n cyfoethogi'n gymdeithasol ac yn adfywio'n ddeallusol yn hytrach nag yn dasg neu ddyletswydd gysylltiedig â swyddogaeth waith. Mae wedi bod yn hwyl cysylltiedig â gwaith gyda grym a phwrpas. Mae wedi bod o bwys yn yr un ffordd ag y mae'r rhan fwyaf o brosiectau diwylliannol a gomisiynir o bwys, ond gyda phwysigrwydd dyfnach a mwy o ymdeimlad o effaith uniongyrchol. 'Effaith uniongyrchol' yn yr ystyr bod yna oblygiadau ar unwaith yn lleol, gweithgarwch diwylliannol sy'n tywys y rheiny sy'n cyfrannu a'r rheiny sy'n ymgysylltu â'i ganlyniadau ar daith esblygiadol. 'Pwysigrwydd dyfnach' oherwydd bod pob prosiect Creu Cymunedau Cyfoes wedi'u cydblethu â chyfraniadau diwylliannol maith a hirdymor sy'n adlewyrchu bywydau'r rheiny sy'n arwain a gweithredu rhaglenni, wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau. Mae Creu Cymunedau Cyfoes yn fenter i, am ac agos at ddoethineb sydd wedi'i gorffori'n lleol a chyd-alluedd diwylliannol. Mae'n dadlau'n groch dros bresenoldeb byd-eang y brodorol a'r lleol ar draws cymunedau o fwriad sy'n mynd ati i gydweithredu ar ddatblygiad cynnwys ffres (a 'chelfyddyd gyfannedd').

Rwy'n meddwl fy mod i newydd ddyfeisio'r term 'celfyddyd gyfannedd' i bwysleisio bod hon yn broses y mae'r rheiny sydd eisoes â buddsoddiad ymroddiad ar draws eu bywydau i'w 'lle' yn byw ynddi ac yn ei phoblogi. Fel unigolion, efallai bod ganddynt unrhyw un o nifer o rolau mewn bywyd; artist, dylunydd, entrepreneur diwylliannol, curadur, rheolwr prosiect, datblygwr, busnes lleol, actifydd, eiriolwr cymunedol, addysgwr - â'r rhestr ymlaen, ond maent i gyd yn ymwneud â lle a rennir mewn amser. Efallai bod ganddynt gymhellion sy'n amrywio'n fawr ond maent wedi creu cymuned sy'n ofalus o gyd-werthoedd sy'n disgrifio'r ddynoliaeth ac yn darlunio'r agweddau gwell ar y natur ddynol mewn perthynas â 'lle'. Mae'r fenter hon a'r gwaith hwn o feithrin cymunedau ffres o bwrpas wedi bod, ac yn dal i fod, yn eiliad o newid. Dyna oedd ei fwriad gwreiddiol. Ond mae hwn yn newid heb drawma, nad yw'n gyflym, mae'n gymedrol ac yn esblygol. Ac mae'n newid sy'n ymateb i arfer ac i siawns; sy'n parchu'r angen i roi'r cyfle i fuddsoddiadau diwylliannol ffres neu raddol newydd ymfurfio a dod yn beth sydd â chyfatebiaeth uniongyrchol â lle a'i ddeiliadaeth. Mae 'Creu Cymunedau Cyfoes' yn brosiect sydd wedi arddel safbwynt ac ymchwilio i ddynamig gymdeithasol wleidyddol; roedd yn ei gwneud yn ofynnol i bobl a chymunedau o ymarfer neu fuddiant a fodolai eisoes gysylltu mewn lle, neu mewn perthynas ag ef. Roedd yn ei gwneud yn ofynnol i bobl greu ymrwymiad i'w gilydd ar sail yr hyn a allai fod yn bosibl, neu o leiaf yn werth rhoi cynnig arno. Yna fe wobrwydd feddwl cysylltiedig gydag adnoddau a fyddai'n gweddnewid a diriaethu'r ymdeimlad hwnnw o gymuned yn weithgarwch a phrofiad diwylliannol newydd, adnoddau sydd wedi gwneud hynny dros amser. Ac wedyn, anogodd y rheiny oedd yn cymryd rhan i ymgynnull ag eraill, y tu allan i'w rhanbarth eu hunain, mewn cyfluniadau trawsleoliadol sydd wedi ymfurfio fel math o stiwdio lorweddol a rhwydwaith creadigol. Yn y fath fodd, mae wedi meithrin

dechreuadau newydd ac yna hybu croesffrwythloni trwy fath o ddiwylliant 'rhisom', wedi ymwreiddio mewn lle ond dan ddylanwad cymuned o ymarfer sydd wedi ehangu.

Mae Creu Cymunedau Cyfoes yn wleidyddol. Ni ddylai hyn beri syndod. Mewn gwirionedd, mae popeth yn wleidyddol, hyd yn oed heb fwriad hunanymwybodol. Gwleidyddiaeth datganoli ewtopig amaethol ac egalitaraidd, er yn ddiwygiadol ei natur, yw 'Creu Cymunedau Cyfoes, ymysg pethau eraill; mae wedi bod yn wireddiad democratiaeth. *"To be truly radical is to make hope possible, rather than despair convincing."* (Raymond Williams). Ac, yn ganolog i bob democratiaeth dybiedig mae braint gynhenid y cyflwr dynol, sef cynhyrchu diwylliannol. Felly mae Creu Cymunedau Cyfoes yn dod yn wleidyddol oherwydd ei dyhead i berfformio a symud ymlaen trwy systemau lled-strwythuredig democratiaeth ddiwylliannol. Dyma gyfnod pan fo nifer gynyddol o feysydd hawl diymwad wedi cael eu troi'n gaeedig fesul tipyn o ganlyniad i weithredoedd gwleidyddol hunanymwybodol y llywodraeth ganolog. Felly, mae ymwneud â phrosiectau Creu Cymunedau Cyfoes yn ein gwneud ni oll yn radicaliaid. Os dywedodd Lenin erioed fod celf yn eiddo i'r bobl, yna mae'n bosibl bod prosiectau Creu Cymunedau Cyfoes yn cynnig ychydig o enghreifftiau o'r hyn y gallai hynny ei olygu'n ymarferol. Yn bendant ysgrifennodd Beuys, *"Mae pawb yn artist, yn fod rhyddid..."* (ac wedyn dywedodd llawer o bobl eraill hynny, yn aml gan ddefnyddio geiriau ychydig yn wahanol neu newid y gystrawen i greu arlliw penodol, ond mae'r ystyr gyffredinol yno) a thrwy gydol prosiectau 'Creu Cymunedau Cyfoes', mae pob cyfraniad gweithredol wedi dangos rhywfaint o ystyr y dyfyniad hwnnw. Ym mhob prosiect, mae'r cyfan cyfunol (wedi'i ffurfio o gonsortwm o fuddiant lleol sydd wedi cymryd ei bromtiau a'i ysgogiadau o gyngor cenedlaethol cyllido'r celfyddydau) wedi bod yn benderfynol o frwydro yn erbyn dadansoddiad. O'r hyn a welais o'r prosiectau rwyf wedi ymweld â nhw ac wedi ennyn cyfatebiaeth â nhw, mae'r agwedd o gydgyfrifoldeb, i bob pwrpas, wedi dyfeisio 'ffurf gelf' perfformiadol a strwythuredig mewn amser ynddi ei hun, lle mae gwerth a gwerthoedd wedi cael eu creu, eu meithrin ac weithiau eu dadadeiladu trwy'r dynamig cymdeithasol a gwleidyddol. Ychydig iawn o weithdrefnau, neu ddim o gwbl, a fu i bennu problem ac wedyn ei datrys. Nac i ddiwallu angen cymdeithasol o ddiagnosis rhagnodol. Nac i 'adfywio' diwylliant ar ran y rheiny y tybir bod angen eu hail-wareiddio. Yn lle hynny, mae'r prosiectau wedi creu gwerth a gwerthoedd o hunan-effeithioli ac o ddeialog cynhwysol a diwylliant cydweithredol. I fod yn glir, mae menter Creu Cymunedau Cyfoes yn ddyfeisiad polisi galluogi; o safbwynt Cyngor Celfyddydau Cymru, mae wedi bod yn fenter sefydliadol a fwriadwyd i 'ganiatáu' canlyniadau anodd eu rhagweld a gohirio unrhyw farn ar ei llwyddiant cymharol, gan olygu bod mwy o le ar gyfer cyd-berchnogaeth go iawn.

Mae hyn yn werth sy'n cael ei greu gan darfu, a chyfarfyddiad, ac ymarfer, a chwilfrydedd; oll yn arferion nodedig a gysylltir ag artistiaid yn aml. Gellid crynhoi pwysigrwydd y nodweddion hyn fel gwahaniaeth ac agor allan syniadau a chyfleoedd creadigol; neu alluedd cudd. Yn ymarferol, efallai ei bod wedi achosi pryder neu hyd yn oed tyndra ar adegau, ond mae'r broses wedi ymwrthod â rhesymeg dylunio seiliedig ar ganlyniadau neu drefn datrys problemau. Pur anaml mae'r prosiectau wedi ceisio dod i ben ar ryw bwynt penodedig. Hyd yn oed tua diwedd cyfnod y cyllid, mae aelodau o'r rhwydwaith newydd hwn o actifyddion Creu Cymunedau Cyfoes wrthi'n chwilio am ddechreuadau newydd a

ffyrdd eraill o barhau â chyfarfyddiad. Nid yw'r prosiect a phroses gyffredinol wedi ymwneud â materion sy'n galw am ganlyniad; yn hytrach, mater a chanlyniad yw Creu Cymunedau Cyfoes. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau cyhoeddus rhwysgfwawr ac eiliadau mawreddog. I'r gwrthwyneb yn llwyr. Yn aml mae'r gweithredwyr, y rhanddeiliaid, y cyfranogwyr a phawb sydd wedi ymwneud â'r prosiectau wedi darganfod eu nodau a'u cyd-werthoedd trwy gyflawni a thrwy fod yn weithredol. Nid oes dim eiliad dadlennol yn hyn o beth; yn hytrach bod pryderon a bwriadau ac anghenion y bobl sy'n cymryd rhan hefyd wedi dod yn gymhelliad iddynt ac, yn y rhan fwyaf o achosion, wedi adfer neu ddiwygio actifyddiaeth oedd yno eisoes yn y lle cyntaf, trwy roi mwy o alluedd iddi.

Mae hwn yn bwynt pwysig. Mae dyfarnu grantiau a chyllid yn rhoi statws proffesiynol i unrhyw brosiect yn y maes cyhoeddus. Ond un o nodweddion penodol y sector celfyddydol a diwylliannol yw bod yr amatur a'r proffesiynol yn aml yn cael eu drysu neu eu cyfuno ar yr un pryd. A ninnau'n 'fodau rhyddid', rydym i gyd yn tueddu i geisio cymundeb trwy ffyrdd amrywiol ac yn aml iawn yn troi at fynegiant allanol sy'n ymdrin â chynnwys y tu hwnt i'n profiadau ynysedig. Rydym yn creu neu'n cynhyrchu diwylliant oherwydd bod arnom angen cynhenid ac oherwydd bod rhyngweithio cymdeithasol arferol yn ddi-fudd fel arall. Mae cynhyrchiant diwylliant yn nodwedd reddfodol o'n profiad beunyddiol. Mae yna rai sy'n ei gyflawni'n amlach nag eraill fel set o arferion cryno a dwys ac mae yna rai sy'n ei gyflawni'r rhan fwyaf o'r amser ac fel galwedigaeth ond, mewn unrhyw gyd-destun, mae ei ysgogiad yn tarddu o ehangder o wirioneddau dealedig sy'n rhan o fod yn ddynol. Mae'n dod yn rhywbeth gwahanol pan gaiff cyllid ei gyflwyno os oes ganddo ddyheadau wedi'u rhagnodi ymlaen llaw neu ddyluniad a ysgogir gan bolisi. Mae cyflwyno adnoddau a allai gael eu gwario neu eu hymrwymo er budd cynhyrchiant diwylliannol cynlluniedig yn aml yn tynnu sylw'r artistiaid neu'r gymuned sy'n cynhyrchu, ac yn lleddfu eu hewyllys greddfodol. Mae arian cyhoeddus, yn benodol, yn galw am atebolrwydd cyhoeddus. Yn y bôn, mae gwario arian cyhoeddus ar y celfyddydau'n sefydlu syniad blaenoriaeth; mae'n creu cystadleuaeth, am sylw ac am syniadau. Felly, fel arfer un ffordd arferol fyddai nodi meincnod neu broblem sy'n hwyluso cymhariaeth, ac yna mesur yr ymatebion a gynigir fel datrysiadau, er mwyn sicrhau canlyniadau gwerth gorau i'r noddwr. Mae'r agwedd hon ar gomisiynu cyhoeddus wedi bod yn wahanol yn y prosiect Creu Cymunedau Cyfoes. Mae'n wir y bu cystadleuaeth gychwynnol, ond roedd wedi'i bwriadu i benderfynu pa gonsortia fyddai'n cael cefnogaeth a rhoddwyd prawf arni ar sail cryfder ac ansawdd y bartneriaeth yn hytrach na'u syniad mawr. Felly, heb y ddyletswydd benodol o lunio diagnosis o argyfwng neu achos neu set o broblemau cymdeithasol ddaearyddol penodedig oedd yn haeddu sylw, bu llai o demtasiwn i ragnodi gwellhad neu adweithio i reidrwydd a osodwyd. O ganlyniad, mae wedi bod yn fwy tebygol erioed y byddai syniadau a darddai o gonsortia Creu Cymunedau Cyfoes yn cyduno o gwmpas cyd-barodrwydd neu adwaith cynnil oedd yn cyfateb i brofiadau bywyd go iawn a phrofiadau byw wedi'u dinoethi'n onest, yng nghyd-destun lle, gan actifyddiaeth y partneriaid a'r cyfranogwyr.

Nid wyf eisiau gor-ddweud, ond mae wedi dod yn amlwg mai diben yr ymarfer oedd gwrthdroi grym. Mae wedi bod yn broses o rymuso trwy gytundeb llawen, cyd-gydnabod a chyd-ymddiried. Mater o gydgyfarfod fu'r prosiectau. Gellir tybio mai ecoleg dros dro yw hon a bod y cynghreiriau a ffurfiwyd trwy raglen Creu Cymunedau Cyfoes yn debygol o fod

yn fyrhoedlog. Ond un agwedd hanfodol ar brosiectau'r rhaglen, a'u grym gwleidyddol, yw eu bod, wrth eu natur, yn canolbwyntio'n bennaf ar alluedd cymunedau a rhwydweithiau. Bydd strwythurau cymdeithasol dibarhad o'r fath yn ymddatod ac yn ailffurfio ac yn creu posibilrwydd rhagor o rwydweithiau a dechreuadau annisgwyl. Mae'n rhaid iddynt fod yn bethau dros dro oherwydd eu bod yn cynnwys cydraddolion sydd â'u cymeriad a'u potensial eu hunain. Yn bwysig, ac yn anochel, er mwyn rhoi gwerth ar bob partner, ac ymddiried ynddo, rhaid iddo gynnal ei uniondeb ac felly bod ar wahân.

Un o'r gwersi allweddol o'r fenter dair blynedd yw bod ganddi sail amser, ond bod y gwaith o ymrwymo i'r prosiectau a'u cyflawni wedi bod yn arafach nag y byddid yn disgwyl o dan drefnau cyllido mwy arferol. Hefyd, y gellir ac y dylid cadw cymeriad gwahanol a nodedig y rheiny sy'n cyfrannu at y datblygiadau, neu'n ymuno â nhw ym mhob ardal, ar wahân drwy gydol cyfnod y cydweithredu. Gyda'i gilydd, mae'r ddau sylw hyn, y ddwy wers hyn, yn ymwneud â'r ffordd yr ydym yn deall ac yn meddwl am 'lle' fel lleoliad amodol. Ffocws hanfodol y fenter yw perthynas wedi'i thriogli rhwng cynhyrchiant diwylliannol, gwleidyddiaeth gymdeithasol a daearyddiaeth ffisegol. Mae'n bwysig myfyrio ar elfen 'lle' a chysyniad creu mannau. Gellir tybio bod gan le nodedigrwydd a nodweddion ffisegol, a bod natur unigryw'r amgylchedd materol hwnnw yn cael ei phennu a'i chynyddu, yn rhannol, gan gymysgedd amrywiol o hanes daearyddol ffisegol a threftadaeth cymdeithasol wleidyddol. Mae man yn dod yn lle yn rhinwedd ei hanes cofiedig; mae'n dod yn safle mewn perthynas ag un o brif ffocysau'r hanes hwnnw. Yn y naill achos neu'r llall, arwyddocâd a pherthnasedd ehangach a greodd gof neu naratif trosglwyddadwy. Mae'n dilyn y dylai 'creu mannau' gefnogi dulliau cynhyrchu diwylliannol a fydd naill ai'n cyfoesi neu'n creu dimensiwn ffres a, hyd yn oed, hunaniaeth newydd i'r lle. Fodd bynnag, yng nghyd-destun proses Creu Cymunedau Cyfoes, gellir gweld bod 'adnabod lle' wedi dod i'r amlwg fel amcan mwy a phennaf, yn hytrach na chreu mannau. Achubodd y prosiectau ar y cyfle hwn i ymchwilio i broses 'adnabod lle' trwy achosi cydgyfarfod a thynnu ynghyd gymuned yr oedd eu consyrn gyda lle neu am le yn effeithio arni; a thrwy hynny rhoi gwerth ar ffynonellau cynhyrchu diwylliannol lleol a brodorol. Ymddengys mai'r hyn sydd wedi digwydd ledled y fenter yw bod dyfeisio arferion cyfeillachol a chymunedau prosiectau wedi hybu nodi, cyfnewid a dathlu ar lefel leol i'r fath raddau nes bod priodoleddau lle wedi dod yn fwy amlwg ac adnabyddadwy. Gall lle ddod yn nodedig oherwydd ei fod yn cael ei nodi ac ymatebir iddo, yn yr achos hwn, o nifer o safbwyntiau; y rhai sydd ynddo, y rhai sy'n agos ato a rhai sy'n gysylltiedig ag ef. Ond mae hyn yn dibynnu ar amser, gan greu eiliadau o eglurder sydd wedi mwyhau prosiectws diwylliannol cudd 'byw' a phresennol cymunedau sy'n seiliedig ar le.

Mae angen pwysleisio na ellir disgwyl gallu amddiffyn ansawdd y perthnasoedd a'r rhyngweithio dynamig rhwng pobl a lleoedd yn y tymor hir; mae'n debyg mai byrhoedlog fydd prif gyflawniadau'r prosiectau. Ni ddylai canlyniadau parhaus a chynaliadwy fod yn bosibl oherwydd mae pobl 'lle' yn newid ynddynt eu hunain. Nid oes modd i'r hyn sydd wedi digwydd ac a all ddigwydd yn awr ddigwydd eto yn yr un ffordd yn union na hyd yn oed, o angenrheidrwydd, yn yr un man. Felly, gallwn dybio bod 'lle' gweithredol yn safle neu'n fan sy'n cael ei fywiocau gan ei gymunedau a'i ddiriaethu (fel cysyniad) gan ddimensiwn amser. Yn gryno, dyma bwy ydym ni am yr hanes byr hwn a dyma ble ydym ni

oherwydd ein cyd-naratif. Mae menter 'Creu Cymunedau Cyfoes' wedi cynnig syniad 'lle' fel mwy na daearyddiaeth ffisegol gan ei fod yn cynnwys pobl a'u syniadau. Mewn termau dynol, mae 'lle' hefyd yn gyfarfyddiad cysyniadol ac emosiynol sydd ar ei fwyaf pwerus wrth gael ei rannu neu ei gyd-adeiladu gyda phobl eraill. I bob pwrpas, ac yn ôl fy nealltwriaeth o'r gair, mae Creu Cymunedau Cyfoes wedi amlygu ystyr y gair 'hiraeth'

Daw hyn â mi at fy mhwynt olaf, sy'n ymwneud â chysyniad 'elw cymdeithasol buddsoddadwy'. I esbonio'n gryno beth sydd gennyf i yma, mae'r cymal byr hwn yn cynnwys tri gair ac mae angen diffiniad ar bob un. Mae 'cymdeithasol' yn cyfeirio at y partneriaethau cydweithredol rhyngbersonol sy'n gynhenid ym mhob prosiect; cyfraniad pobl, ac ymgysylltiad â nhw, heb ragnodi pwrpas na rhagdybio swyddogaeth gyfryngol. Ystyr 'elw' yw bod y gweithgareddau sydd wedi llunio'r prosiectau Creu Cymunedau Cyfoes a'r gweithredoedd sydd wedi crynhoi eu hymdrechion neu wedi bod yn gorff o waith a gomisiynwyd, wedi ychwanegu gwerth at y gymdeithas leol a chof diwylliannol fel gwaddol. Heb ystyried gwerth a chyfnewid economaidd, cafwyd enillion dealedig i'r unigolion a gymerodd ran ac, yn aml iawn, i'r cymundod ehangach, a sonnir am hyn yn aml mewn cyfarfodydd prosiectau yn nhermau llesiant. At hynny, fel arfer mae addewid mantais gadarnhaol yn y dyfodol yn nhermau arferion diwylliannol parhaus y tu mewn i'r gymdeithas neu, o leiaf, enillion yn y pen draw ar fuddsoddiad gwreiddiol amser a chreadigrwydd. Mae'r term 'buddsoddadwy', yn yr achos hwn, yn cyfeirio at y potensial am wersi a phrofiadau; y gallent gael eu hail-gyflunio neu eu newid i fod yn addas i leoliadau eraill a chymunedau eraill. Yn sgil Creu Cymunedau Cyfoes, mae yna ddull neu gasgliad o ddulliau. Nid yw'r methodolegau hynny'n strwythurol yn unig, maent yn cynnwys cynhwysion fel: cred sylweddol, ymrwymiad diamheuol, amserlen realistig ac addasadwy, cymorth (neu gyfarwyddyd neu fentora) allanol, ac agwedd gadarnhaol at risg a methiant. Beth bynnag fo manylion prosiectau Creu Cymunedau Cyfoes a beth bynnag y bydd y gwerthusiadau terfynol o'r canlyniadau yn eu datgelu fel metrigau gwerth chweil, craidd sylfaenol yr ymarfer tair blynedd yw bod 7 grŵp gwahanol o faint a chyrhaeddiad amrywiol, mewn 7 man gwahanol ar draws Cymru, i gyd wedi darparu o leiaf un fethodoleg yr un ar gyfer cydweithredu llwyddiannus ym maes comisiynu diwylliannol lleol wedi'i seilio ar werthfawrogiad o le ac ymagwedd integredig at gymuned. Yr elfen na ellir ei chynnwys o fwriad yn y dulliau hynny ond sydd wedi bod yno yng ngwreiddiau dwfn pob consortiwm, hyd yn oed cyn iddynt gyfarfod, yw angerdd. Ymroddiad diymwad i'r ddynoliaeth a photensial yr enaid byw; mae unigolion wedi cymryd cyfrifoldeb am eu galluedd diwylliannol eu hunain ac wedi buddsoddi eu calonnau gydag empathi i greu economi roddion lle mai gweithred a gofalu am lesiant diwylliannol pobl eraill yw'r arian cyfred. 'Celfyddyd' yw'r enw a roddaf ar hynny.

Paul Haywood

*Deon Rhaglenni Academaidd yn University of the Arts: Central Saint Martins
Athro Gwadd mewn Ymgysylltiad Cymunedol Creadigol ym Mhrifysgol Salford*